# Cynnig i roi eithriad i rwymedigaethau gwasanaeth cyffredinol y Post Brenhinol

Dim gofyniad am ddosbarthiadau a chasgliadau ledled y Deyrnas Unedig ar 1 Ionawr 2022


**YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 12 Tachwedd 2021

Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 13 Rhagfyr 2021

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg 1

# 1. Trosolwg

Fel y Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol Dynodedig ("DUSP"), mae'n ofynnol i'r Post Brenhinol ddarparu gwasanaeth post cyffredinol, gan gynnwys dosbarthu a chasglu llythyrau, chwe diwrnod yr wythnos, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. Fodd bynnag, nid yw'r rhwymedigaeth hon yn berthnasol ar wyliau cyhoeddus, sy'n cynnwys gwyliau banc ac unrhyw ddyddiad arall a gyfarwyddir gan Ofcom. Mae'r rhain yn cael eu galw'n 'eithriadau'.

Mae'r Post Brenhinol wedi gofyn i Ofcom ddarparu cyfarwyddyd i wneud 1 Ionawr 2022 yn 'eithriad' oherwydd mai dydd Sadwrn yw'r dyddiad hwn. Yn gyffredinol mae 1 Ionawr yn ŵyl gyhoeddus. Fodd bynnag, yn 2022, pan fydd y dyddiad hwn yn digwydd ar ddydd Sadwrn, mae'r dydd Llun canlynol wedi'i ddynodi'n ŵyl gyhoeddus swyddogol. Byddai hyn yn golygu, yn absenoldeb cyfarwyddyd gan Ofcom, y byddai dydd Sadwrn 1 Ionawr 2022 yn ddiwrnod gwaith arferol ac y byddai'n ofynnol i'r Post Brenhinol ddosbarthu a chasglu llythyrau. Y cais gan y Post Brenhinol yw bod Ofcom yn rhoi'r eithriad hwn yn ychwanegol at gadw at y diwrnod dim gwaith ar ddydd Llun 3 Ionawr 2022.

Ar ôl ystyried y cais gan y Post Brenhinol, gan gynnwys ei gyflwyniadau ynghylch y maint tebygol o bost ar 1 Ionawr 2022 ac effaith yr eithriad hwn ar ddefnyddwyr (gan gofio y bydd y rhan fwyaf o fusnesau a sefydliadau sector cyhoeddus ar gau y dyddiad hwnnw), mae Ofcom yn bwriadu cymeradwyo'r cais gan y Post Brenhinol. Mae Ofcom hefyd wedi cymryd i ystyriaeth y ffaith y cyhoeddwyd cyfarwyddyd tebyg gan Postcomm yn 2010.

### Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

- Mae Ofcom yn bwriadu rhoi cyfarwyddyd sy'n darparu eithriad i'r gwasanaeth cyffredinol ledled y Deyrnas Unedig ar gyfer 1 Ionawr 2022, gan mai dydd Sadwrn yw'r dyddiad hwn. Byddai hyn yn golygu na fyddai'n rhaid i'r Post Brenhinol gasglu na dosbarthu post ar y diwrnod hwnnw.
- Rydym yn gwahodd sylwadau ar y cynnig hwn cyn hanner dydd ar 13 Rhagfyr 2021. Fodd bynnag, byddem yn croesawu ymatebion yn gynharach lle bo hynny'n bosib.
- Yn amodol ar ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym yn bwriadu cyhoeddi ein datganiad ar y cynnig uchod cyn gynted â phosib ar ôl dyddiad cau'r ymgynghoriad.

Mae adran drosolwg y ddogfen hon yn grynodeb lefel uchel wedi'i symleiddio'n unig. Disgrifir y cynigion yr ydym yn ymgynghori arnynt a'n sail resymegol drostynt yn y ddogfen lawn.